Pecyn Dogfennau

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Annwyl Gynghorydd/ Dear Councillor,

CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - DYDD IAU, 12FED MAWRTH, 2020

Gweler yn amgaeedig fersiwn Gymraeg y Cynllun Archwilio 2020 a derbyniwyd heddiw oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru.

WALES PENSION PARTNERSHIP JOINT GOVERNANCE COMMITTEE – THURSDAY, 12TH MARCH 2020

Please find attached the Welsh version of the 2020 Audit Plan, which was received today from the Wales Audit Office.

Yn gywir/ Yours sincerely,

Wendy Walters

Prif Weithredwr/ Chief Executive

Amg./ Encs.

Wendy Walters
Prif Weithredwr, Neuadd y Sir,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Chief Executive, County Hall,
Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

CYFRANOGI · ARWAIN · CEFNOGI
EIN POBL
OUR PEOPLE
ENGAGE · LEAD · SUPPORT

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Cynllun Archwilio 2020 – **Partneriaeth Pensiwn Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1784A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, phan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

Cynnwys

Cynllun Archwilio 2020

Ein dyletswyddau 4

Archwiliad o'r datganiadau ariannol 4

Ffi, tîm archwilio ac amserlen 6

Cynllun Archwilio 2020

Ein dyletswyddau

1 Rydym ni'n cwblhau gwaith bob blwyddyn er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol.

Archwiliad o'r datganiadau ariannol

2 Hon fydd y flwyddyn gyntaf y bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru yn cynhyrchu datganiadau ariannol llawn a byddwn yn archwilio'r datganiadau ariannol hyn i sicrhau y rhoir cyfrif priodol am yr arian cyhoeddus.

Gwerth am arian

3 Mae'n rhaid i Bartneriaeth Pensiynau Cymru roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y maent yn eu defnyddio, ac mae'n rhaid inni fod yn fodlon eu bod nhw wedi gwneud hyn.

Gwelliant parhaus

4 Hefyd, mae'n rhaid i Bartneriaeth Pensiynau Cymru roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus ac rydym ni hefyd yn gwirio i weld a ydynt wedi gwneud hyn.

Archwiliad o'r datganiadau ariannol

5 Fy nghyfrifoldeb i yw cyflwyno tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch':

- rydym yn bwriadu rhoi barn ar ddatganiadau ariannol Partneriaeth Pensiynau Cymru erbyn 31 Gorffennaf 2020.
- asesu a gafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif Partneriaeth Pensiynau Cymru eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a'r canllawiau perthnasol. Rydym ni'n adolygu hefyd a oeddent yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan Bartneriaeth Pensiynau Cymru â'n gwybodaeth am Bartneriaeth Pensiynau Cymru.
- ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon oddi wrth etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen).

6 Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

7 Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar ein gwefan (www.archwilio.cymru).

Risgiau Archwilio’r Datganiadau Ariannol

8 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau sylweddol yr wyf wedi eu nodi ar gyfer archwiliad Partneriaeth Pensiynau Cymru.

Arddangosyn 1: risgiau archwilio’r datganiadau ariannol

Risg archwilio	Ymateb arfaethedig yr archwiliad
Risgiau arwyddocaol	
Mae’r risg y bydd rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau i’w gweld ym mhob endid. O ganlyniad i’r modd anrhagweladwy y gallai’r gwrthwneud hyn ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: • profi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion a newidiadau eraill a wneir wrth baratoi’r datganiadau ariannol; • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tueddiadau; a • gwerthuso sail resymegol unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol.
Meysydd eraill y bydd yr archwiliad yn rhoi sylw iddynt	
Gan y bydd Partneriaeth Pensiynau Cymru yn paratoi cyfrifon am y tro cyntaf, ceir risg gynyddol na fydd y datganiadau drafft a gyflwynir i'w harchwilio yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau cyfrifyddu perthnasol.	Byddwn yn cynnal profion archwilio manwl ar yr holl fantolau a thrafodion perthnasol.
Oherwydd ei fod yn sefydliad sydd newydd ei sefydlu, ceir risg uwch na fydd trefniadau llywodraethu ariannol mewnol wedi eu datblygu nac/neu na fyddant wedi eu gweithredu'n llawn yn ôl y bwriad. Mae angen i'r sefydliad sicrhau bod gweithdrefnau cadarn yn bodoli yn y meysydd canlynol: • rheolaethau ariannol mewnol megis rheoliadau ariannol cynhwysfawr a rheolaeth gyllidebol gref; • safonau ymddygiad ariannol; a • threfniadau i sicrhau nad yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cychwyn trafodion oni bai fod darpariaeth gyfreithiol benodol iddynt wneud hynny.	Byddwn yn cynnal profion archwilio manwl i sicrhau bod trafodion yn cael eu cofnodi'n gywir, eu bod nhw’n ymwneud â'r cyfnod ariannol, a bod darpariaeth gyfreithiol benodol i ymrwymo i'r trafodiad.

Ffi, tîm archwilio ac amserlen

9 Seilir fy ffioedd a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad ar y tybiaethau canlynol:

- bod datganiadau ariannol wedi eu darparu'n unol â'r amserlen y cytunwyd arni, eu bod o'r ansawdd disgwyliedig a'u bod wedi bod yn destun adolygiad sicrwydd ansawdd trylwyr;
- bod yr wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ddogfen canlyniadau archwilio y cytunwyd arni;
- darperir lleoliad a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad; a

  bod gennych yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i ddarparu'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a'r adroddiadau rheoli sicrwydd sydd wedi eu cyfeirio ataf.

10 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl bryd hynny.

Y ffi

11 Nodir amcangyfrif o'ch ffi ar gyfer 2020 yn Arddangosyn 2. Bu rhai mân newidiadau o'u cymharu â'm cyfraddau ffioedd ar gyfer 2019, fodd bynnag, bydd fy nhimau archwilio yn parhau i ysgogi effeithlonrwydd yn eu harchwiliadau er mwyn sicrhau na fyddwch chi'n ysgwyddo unrhyw gynnydd yn y ffioedd.

Arddangosyn 2: y ffi archwilio

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£)[1]
Archwiliad o gyfrifon[2]	£5,856
Rhoi sicrwydd i archwilwyr y Gronfa Bensiwn	£2,502
Cyfanswm y ffi	£8,358

12 Bydd cynllunio yn broses barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen waith archwilio ac felly fy ffi os daw risgiau allweddol newydd i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Prif Swyddog Cyllid yn gyntaf.

13 Mae rhagor o wybodaeth am raddfeydd ffioedd a gosod ffioedd ar gael ar ein gwefan.

[1] Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, ac ni chodir hyn arnoch chi

[2] Yn daladwy o fis Tachwedd 2019 hyd at fis Hydref 2020.

Y tîm archwilio

14 Crynhoir prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: fy nhîm archwilio

Enw	Swyddogaeth	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Ann Marie Harkin	Cyfarwyddwr Ymgysylltu	02920 320500	Ann-Marie.Harkin@audit.wales
Jason Garcia	Rheolwr Archwilio	07792 015416	Jason-garcia@audit.wales
I'w benderfynu	Arweinydd Archwilio – Uwch-archwilydd	Amh.	Amh.

Yr amserlen

15 Ymgymerir â gwaith ar gyfrifon ariannol yn ystod y cyfnod rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2020.

16 Gallaf gadarnhau bod pob aelod o'm tîm yn annibynnol ar Bartneriaeth Pensiynau Cymru a'ch swyddogion. Hefyd, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi eu dwyn i'ch sylw.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru